Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gofalwyr Di-dâl

## Ffurflen Ymateb

Chwefror 2026

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o: **Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gofalwyr Di-dâl 2026**




Efallai y byddwch chi angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gwefan:** llyw.cymru/drafft-strategaeth-genedlaethol-ar-gyfer-gofalwyr-di-dal-2026

**E-bost:** PolisiGofalwyrDi-dal@llyw.cymru

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei ddeall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma

Rhif trwydded Photosymbols R 403527247

# Cynnwys

**Am y ffurflen ymateb yma** .......................................................... 4

**About you** ......................................................................................... 7

**Cwestiynau** ...................................................................................... 10

Am sut mae hyn yn gallu effeithio ar fywydau pobl .......15

# Am y ffurflen ymateb yma



Mae’r ffurflen yma yn gyfle i bobl gael dweud eu dweud am beth fydd yn cael ei gynnwys yn y strategaeth derfynol.




Darllenwch y brif ddogfen o’r enw ‘**Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gofalwyr Di-dâl - Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi’n feddwl am ein cynlluniau newydd**’



Yna atebwch y cwestiynau yn y ffurflen ymateb yma.




Anfonwch y ffurflen yma yn ôl i ni erbyn **dydd Llun, 13 Ebrill 2026**.

**E-bost:**



Rydych chi’n gallu llenwi’r ffurflen yma ar eich cyfrifiadur a’i e-bostio i:
PolisiGofalwyrDi-dal@llyw.cymru



**Neu ei argraffu a’i bostio i:**
Tîm Polisi Gofalwyr Di-dâl
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

## Iaith neu fformatau gwahanol:




Os ydych chi eisiau’r ffurflen yma mewn iaith neu fformat gwahanol, cysylltwch â ni yn:



**E-bost:**
PolisiGofalwyrDi-dal@llyw.cymru




Mae’r ffurflen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

## Sut rydyn ni’n defnyddio’ch gwybodaeth




Darllenwch “**Sut rydyn ni’n defnyddio eich gwybodaeth**”: [https://www.llyw.cymru/help/polisi-preifatrwydd-wefan](https://www.llyw.cymru/help/polisi-preifatrwydd-wefan)




Mae hyn yn dweud wrthych chi sut fyddwn ni’n cadw eich gwybodaeth bersonol yn ddiogel ac yn breifat.



Os ydych chi eisiau cael fersiwn hawdd ei ddeall o sut rydyn ni’n defnyddio ac yn storio eich gwybodaeth bersonol, cysylltwch â: [Swyddogdiogeludata@llyw.cymru](mailto:Swyddogdiogeludata@llyw.cymru)

# Amdanoch chi




Eich enw:



Ydych chi'n ateb ar ran sefydliad?

- [ ] Ydw
- [ ] Nac ydw



Os ydych chi, beth ydy ei enw:



E-bost:



Rhif ffôn:



Eich cyfeiriad:




Ticiwch pa rai o'r rhain sy'n berthnasol i chi:

- ☐ Gofalwr di-dâl
- ☐ Aelod o'r cyhoedd - dim gofalwr di-dâl
- ☐ Gweithiwr proffesiynol yn ymateb fel rôl unigol
- ☐ Ymateb sefydliad
- ☐ Mae'n well gen i beidio â dweud




Fe fyddwn ni'n cyhoeddi beth mae pobl yn ei ddweud ar-lein. Ydych chi eisiau i'ch atebion gael eu cadw'n breifat?

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw

# Cwestiynau



1. Ar **dudalennau 9 i 10** fe wnaethon ni siarad am yr 8 blaenoriaeth y mae angen i ni ganolbwyntio arnyn nhw.




Dyma'r pethau rydyn ni'n meddwl sy'n bwysig iawn i ofalwyr di-dâl.

**Ydych chi'n cytuno mai dyma'r blaenoriaethau cywir?**

☐ Ydw

☐ Nac ydw

☐ Dim yn gwybod



**2. Dywedwch wrthyn ni pam rydych chi'n meddwl hyn yn y blwch yma.**




**3. Hefyd, ychwanegwch unrhyw sylwadau eraill am y blaenoriaethau yma.**

Er enghraifft, a ddylai fod unrhyw flaenoriaethau eraill?




4. O dan bob un o'r 8 blaenoriaeth roedd gennym ni restrau o gamau gweithredu. Dyma'r holl bethau sydd angen eu gwneud i gyflawni pob blaenoriaeth

   **Oes unrhyw beth rydych chi eisiau ei ddweud am unrhyw un o'r camau gweithredu yma?**




5. **Oes unrhyw gamau rydych chi'n meddwl y dylid eu hychwanegu?**



6. **Ydyn ni wedi colli unrhyw beth mae gofalwyr di-dâl yn meddwl sy'n bwysig?**



7. Oes unrhyw beth arall sydd yn gallu cael ei wneud i wneud yn siŵr bod sefydliadau'n gweithio gyda'i gilydd yn well, i gefnogi gofalwyr di-dâl?

- [ ] Oes
- [ ] Nac oes
- [ ] Dim yn siŵr



**Os oes, beth sydd yn gallu cael ei wneud?**

Ychwanegwch sylwadau yn y blwch yma

# Am sut mae hyn yn gallu effeithio ar fywydau pobl



Rydyn ni eisiau i'r strategaeth yma fod yn deg i bawb, felly fe wnaethon ni edrych ar sut mae'n gallu effeithio ar bobl. Er enghraifft, o wahanol oedrannau, cefndiroedd, anableddau, ieithoedd a chymunedau.



Wnaethon ni ddim darganfod unrhyw effeithiau negyddol mawr. Fe ddylai'r strategaeth helpu gofalwyr mewn sawl ffordd.



Mae rhai anawsterau yn dal i fodoli. Er enghraifft, mae cefnogaeth yn gallu  bod yn wahanol mewn rhannau o Gymru, a chael gwybodaeth mewn ffordd sy'n addas iddyn nhw.




Mae gennym ni nawr rai cwestiynau am yr effeithiau yma.



8. Rydyn ni’n credu y bydd y strategaeth yma yn cael llawer o effeithiau cadarnhaol ar ofalwyr di-dâl a llawer o feysydd o’u bywydau.



Mae wedi cael ei wneud i helpu i feddwl am bobl o bob math o gefndiroedd a gyda llawer o anghenion gwahanol.



**Pa fath o effeithiau cadarnhaol allai ei gael ar y bobl yma?**



9. **Beth am y risgiau i'r grwpiau yma? Oes unrhyw beth ddylen ni feddwl mwy amdano?**



Fe wnaethon ni hefyd edrych ar hawliau plant, yn enwedig ar gyfer gofalwyr ifanc.



Nod y strategaeth ydy sylwi a chefnogi gofalwyr ifanc yn gynharach, gwrando arnyn nhw a’u hamddiffyn rhag gwneud gormod



Hefyd i wneud yn siŵr eu bod yn cael yr help cywir lle bynnag maen nhw’n byw.



10. Fe wnaethon ni siarad â Gofalwyr Ifanc am hawliau plant a'r materion sy'n effeithio arnyn nhw.



Mae'r strategaeth yma wedi'i gwneud i wneud yn siŵr bod gofalwyr ifanc yn cael eu cefnogi a'u diogelu.



**Beth ydych chi'n meddwl fyddai effeithiau cadarnhaol yn gallu bod ar ofalwyr ifanc a'u hawliau?**



11. Pa risgiau allai fod i'w hawliau a beth allwn ni ei wneud i newid hyn?




Fe wnaethon ni hefyd edrych I weld sut mae'r strategaeth yn effeithio ar bobl sy'n siarad Cymraeg. Mae cael gofal yn yr iaith rydych chi'n teimlo'n gyfforddus gyda hi yn bwysig.




Efallai y bydd gan rai ardaloedd lai o staff sy'n siarad Cymraeg. Ond mae hyn yn gallu gwella trwy weithio'n agos gyda gwasanaethau a chymunedau.



Mae hyn yn bwysig i bawb, gan gynnwys pobl ifanc sy'n defnyddio'r Gymraeg gartref neu yn yr ysgol.




Mae modd lleihau'r problemau yma. Er enghraifft, drwy roi arweiniad clir, gwella sut mae gofalwyr yn cael eu nodi, a gweithio'n agos gyda gofalwyr di-dâl.




12. Pan wnaethon ni ysgrifennu'r strategaeth yma roedden ni'n meddwl am yr iaith Gymraeg. Mae'n bwysig ein bod ni'n trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.

**Beth ydych chi'n meddwl fydd yr effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg?**



13. **Beth allai'r risgiau fod? A beth ydyn ni'n gallu ei wneud i wella hyn?**



14. Defnyddiwch y blwch yma i ysgrifennu unrhyw beth arall sydd ddim wedi ei gynnwys.